# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 13EG MAWRTH 2019 AM 10:30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd (Llywydd)

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad) ac E. Stenner (Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd).

Ynghyd a:

E. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), P. Smythe (Rheolwr Technegol Tai), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro), D. Harteveld (Rheolwr Gyfarwyddwr – EAS) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D. Poole a L. Phipps a C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro)

### 2. DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eu derbyn ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET – 27AIN CHWEFROR 2019

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain Chwefror 2019 wedi'u cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION AR Y PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL SYDD EU HANGEN**

## 4. STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU CYRHAEDDIAD ADDYSG

Cafodd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes ar 7fed Mawrth 2019, ei gyflwyno gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad, ynghyd â'r diwygiadau arfaethedig gan o'r Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes. Darparodd yr adroddiad y Cabinet gyda'r Strategaeth Cyrhaeddiad ar gyfer Caerffili, o dan y teitl 'Uchelgeisiau a Rennir: Gweithio Gyda'n Gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n pobl ifanc' ac roedd yn ceisio am gymeradwyaeth y Cabinet.

Yr oedd y strategaeth yn rhoi manylion am weledigaeth arfaethedig ar gyfer gwella cyrhaeddiad a chyflawniad ar draws ysgolion, sy'n gysylltiedig yn benodol â'r blaenoriaethau a nodwyd yn nogfen hunanwerthuso'r cyngor a'r materion systemig a ddaeth i'r amlwg drwy gydol yr uwchgynhadledd broses a gynhaliwyd yn ystod yr Hydref.

Roedd y strategaeth hefyd yn cynnwys nifer o egwyddorion arweiniol a naratif ar gyfer #tîmcaerffili sy'n ymgorffori'r dulliau gweithredu a'r ymddygiadau a fydd yn sail i gyflawni'r strategaeth.

Roedd y cynllun gweithredu strategol, a atodwyd i'r strategaeth hefyd yn manylu ar yr hyn y bydd yr Awdurdod Addysg Leol, y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg a'r ysgolion eu hunain yn gwneud i ysgogi gwelliant ar draws y system ysgolion yng Nghaerffili.

Trafododd yr Aelodau'r strategaeth ac yn arbennig y gwaith yn ymwneud â Gwaharddiadau. Mynegwyd pryderon ynghylch y cynnydd diweddar mewn troseddau cyllyll a chysylltiadau â phobl ifanc nad ydynt yn yr ysgol. Eglurodd swyddogion fod hyn yn faes pryder, gyda phwysau sylweddol ar ysgolion a chymunedau. Cydnabuwyd bod gwaharddiadau parhaol yn aml yn anorfod ac er bod gwahanol arferion ar draws ysgolion, mae'n bwysig derbyn bod y disgyblion hyn yn aml yn agored i niwed a bod angen deall y rhesymau y tu ôl i'r ymddygiadau. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y bydd cyfarfod o'r Prifathrawon yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf, a fydd yn ystyried presenoldeb a gwaharddiadau ac yn edrych ar yr arferion gorau.

Trafododd y Cabinet nifer o welliannau a nodwyd yn yr adroddiad a cheisiodd ragor o wybodaeth am gynnydd yn erbyn materion penodol. Nodwyd bod trafodaethau wedi'u cynnal yn nhymor yr Hydref i ystyried canlyniadau a pherfformiad cyfnod allweddol 4 a Lefel A. Codwyd nifer o bryderon ac, yn dilyn trafodaeth agored a gonest, cynhwyswyd y canlyniadau a'r argymhellion o'r cyfarfod hwn fel rhan o'r adroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> Penderfynwyd, yn amodol ar y diwygiadau a nodwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y swyddog, y dylid cymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cyrhaeddiad Addysg

## 5. CYNLLUN BUSNES Y GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG (GCA) (2019-2021) A'R ATODIAD AWDURDOD LLEOL 2019-2020

Cafodd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes ar 7fed Mawrth 2019, ei gyflwyno gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad ac roedd yn ceisio am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) (2019-2021) a'r Atodiad Awdurdod Lleol 2019-2020. Mae'r broses hon yn sicrhau bod y cynllun yn caniatáu cymorth priodol i ysgolion i wella a bod pob disgybl yn cyrraedd eu potensial ar draws Caerffili.

Mae'n ofynnol i'r GCA gyflwyno Cynllun Busnes rhanbarthol trosfwaol blynyddol gydag atodiadau ar gyfer pob un o'r pum Awdurdod Lleol (ALl).

Nododd y Cabinet mai hwn yw'r cynllun busnes cyntaf lle y gallai'r GCA gysylltu cynllun strategol manwl yn gynhenid. Sicrhawyd yr Aelodau bod y Cynllun Busnes wedi bod drwy broses ymgynghori drylwyr (o 18fed Ionawr 2019 tan 8fed Chwefror 2019), gyda nifer o ymgyngoreion allweddol gan gynnwys Cyfarwyddwyr Consortiwm De Ddwyrain Cymru a Chyfarwyddwyr Esgobaethol, Cyd-Fwrdd Gweithredol Rhanbarthol, Bwrdd Cwmni'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, y Grŵp Strategaeth Llywodraethwyr Rhanbarthol, ymgynghori â disgyblion a chafodd yr adborth a gafwyd gan gynrychiolwyr Caerffili ei ystyried yn llawn a'i adlewyrchu, lle y bo'n briodol, yn yr adroddiad.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at 5.13 yn yr adroddiad, a oedd yn cyfeirio at flaenoriaethau strategol Caerffili, a nodwyd bod pob maes gwella yn y cynllun bellach yn canolbwyntio'n benodol ar waith y GCA o ran hyrwyddo canlyniadau gwell i ddysgwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim. Mae'r strategaethau hyn yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth ymchwil. Bydd yn bwysig bod gan bob rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys ALl ac ysgolion Caerffili, eu strategaethau penodol eu hunain i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried y goblygiadau ariannol o fewn yr adroddiad a nodi, o ystyried yr holl ffactorau, fod Bwrdd y Cwmni wedi cytuno y gallai gynnig arbediad effeithlonrwydd o 2% ar gyfraniad cyllid craidd y llynedd ar gyfer 2019/20 fel nodwyd yn y ffigwr dangosol y llynedd, felly cyfraniad Caerffili ar gyfer 2019/20 yw £1,021,020.

Diolchodd yr Aelodau i Ms Harteveld am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Wrth nodi'r Risgiau Awdurdodau Lleol, gofynnodd un Aelod am yr hyn y gall yr Awdurdod Lleol ei wneud i liniaru'r risgiau hyn. Esboniodd swyddogion mai un o'r camau allweddol tuag at leihau risg yw bod yr ysgolion hynny sy'n peri pryder yn derbyn bod angen lefelau uwch o gymorth arnynt, felly maent yn gallu derbyn yr argymhellion a'r gefnogaeth o'r GCA. O ganlyniad, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd lle y caiff yr argymhellion a'r meysydd i'w gwella eu hystyried a'u rheoli. Yn ogystal, nododd Aelodau fod cyllid rhannol yn cael ei ddarparu i ysgolion er mwyn penodi Arweinydd Dysgu Plant sy'n Agored i Niwed, gyda'r nod o gefnogi ac olrhain dysgwyr sy'n agored i niwed drwy gydol eu haddysg. Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd nodi bod gwaith ar y gweill i edrych ar lwybrau i ddysgwyr, a fydd yn rhoi mwy o opsiynau i ddisgyblion y tu allan i lwybrau academaidd, gan ddileu rhywfaint o'r ffocws ar bynciau craidd a datblygu cysylltiadau â busnesau a cholegau, gan ganolbwyntio ar anghenion y dysgwr.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y swyddog ac wrth nodi'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes, y dylid cymeradwyo cynllun busnes y gwasanaeth cyflawni addysg (2019-2021) a'r Atodiad awdurdod lleol 2019-2020.

**6. CYLCH GORCHWYL AR GYFER ADOLYGIAD O LEOEDD ÔL-16/UN RHYW A LLEOEDD DROS BEN**

Cafodd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes ar 7fed Mawrth 2019, ei gyflwyno gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a chyflawniad a gofynnwyd am gymeradwyaeth i'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr adolygiad o ddarpariaeth ôl-16, un rhyw Addysg a lleoedd dros ben ledled Caerffili.

Nododd y Cabinet fod y Cyngor yn ceisio cyflwyno strategaeth gynaliadwy ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghaerffili sy'n seiliedig ar fodelau cadarn ac yn darparu'r addysg gywir yn y lle iawn a gyda'r deilliannau gorau i ddysgwyr.

Mae parhad addysg un rhyw yn Ysgol Lewis i Ferched ac Ysgol Lewis Pengam, yn ogystal â'r her o leihau lleoedd dros ben ar draws ystâd ysgolion uwchradd Caerffili yn faterion ar wahân ond wedi'u cydgysylltu ac mae angen i'r adolygiad hwn roi sylw iddynt hefyd.

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ag adnodd arbenigol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynnal yr arolwg ac mae'n dymuno sefydlu Bwrdd adolygu i oruchwylio datblygiadau.

Atodir cylch gorchwyl drafft ar gyfer y Bwrdd a'r adolygiad i'r adroddiad.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad fod y Pwyllgor craffu addysg i fywyd yn cefnogi'r cylch gorchwyl ond yn cynnig bod cyfanswm o 4 aelod yn eistedd ar y Bwrdd Adolygu. Derbyniwyd enwebiadau yn y cyfarfod, ond mynegodd yr Aelod Cabinet bryderon ynghylch y gwasgariad daearyddol, oherwydd teimlwyd nad oedd yr enwebeion yn darparu cynrychiolaeth ddaearyddol digon eang o bob rhan o'r fwrdeistref.

Diolchodd y Cabinet i'r swyddog a'r Aelod Cabinet am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Codwyd pryderon ynghylch cydbwysedd gwleidyddol y grŵp, ac eglurwyd, fel grŵp gorchwyl a gorffen, nad oes gofyniad i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol, gan na fyddai'r Bwrdd Adolygu yn grŵp oedd yn gwneud penderfyniadau, a byddai argymhellion gan y grŵp yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet am benderfyniad.

Cynhaliwyd trafodaethau am hyd y broses. Cadarnhaodd swyddogion y disgwylir i gyfarfodydd y Bwrdd Adolygu gael eu cynnal oddeutu bob 4-6 wythnos, fodd bynnag, tra bod y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes yn awyddus i'r broses ddechrau, ar ôl i'r argymhellion gael eu datblygu gan y Bwrdd Adolygu, disgwylir iddynt ddilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion a'u proses ymgynghori ragnodedig.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, yn amodol ar newid mewn perthynas â nifer yr enwebiadau i'r Bwrdd Adolygu ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y swyddogion:
>
> (i) bod Cylch Gorchwyl drafft yr Adolygiad o ddarpariaeth Ôl-16, addysg un rhyw a lleoedd dros ben ledled Caerffili yn cael ei gymeradwyo;
>
> (ii) cynyddu nifer yr Aelodau a enwebwyd i eistedd ar y Bwrdd Adolygu i 4, ond bod y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes yn ailystyried yr enwebiadau a gyflwynwyd er mwyn sicrhau gwasgariad daearyddol y fwrdeistref gyfan.

## 7. 2019-20 RHAGLEN GYFALAF ADDYSG

Roedd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes ar 19eg Chwefror 2019 yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y Rhaglen Gyfalaf Addysg 2019/20.

Nododd yr adroddiad gynigion ar gyfer dyrannu Cyllidebau Cyfalaf Addysg ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 yng nghyd-destun y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd 2019/20 – 2021/22.

Cafodd y Cabinet ei gyfeirio at baragraffau 4.4, 4.5, 4.6 a 4.7 yr adroddiad, a oedd yn manylu ar y cynigion ar gyfer cyllideb 2019/20. Nodwyd bod cydweithwyr ym maes Addysg wedi

gweithio'n agos gyda thimau Iechyd a Diogelwch ac Ymgynghoriaeth Adeiladu'r Cyngor wrth benderfynu ar brosiectau blaenoriaeth.

Nodwyd bod y cynigion ar gyfer cyllideb 2018/19 yn dileu cyllideb y cynllun 50/50 ac yn cytuno ar ddefnyddio balansau RhLlY wrth gefn yn y swm o £830 mil i gefnogi'r prosiectau ar gyfer y 3 blynedd nesaf. Cyfeiriwyd yr Aelodau at baragraff 4.8.2 yr adroddiad, a oedd yn manylu ar gynlluniau i'w hariannu 50/50 gydag ysgolion, pe cytunid i ddefnyddio'r arian.

Yn ogystal, nododd y Cabinet fod y Pwyllgor Craffu Addysg wedi codi cwestiynau ynghylch y broses dendro ar gyfer contractau a gwerth am arian. Gan nad oedd y wybodaeth ar gael ar adeg y cyfarfod, rhoddwyd e-bost manwl i'r Pwyllgor Craffu yn dilyn y Pwyllgor.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y swyddogion, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Addysg 2019-20.

## 8. AIL-BROFFILIO RHAGLEN SATC A RHAGLEN GYFALAF CRT 2019/2020

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 12fed Mawrth a Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili ar 14eg Chwefror 2019 yn ceisio cael cymeradwyaeth y Cabinet ar ail-broffilio camau terfynol y rhaglen SATC gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiad erbyn 2020.

Er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni'r rhaglen yn ystod 2018/19, nodwyd y bu'n rhaid adolygu ac ail-drefnu'r rhaglen er mwyn ystyried y newid mewn amgylchiadau, sy'n cynnwys colli'r ail gontractwr a oedd yn darparu rhan o'r gwaith mewnol. Bu'n rhaid ail-broffilio'r rhaglen er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cydymffurfio'n llawn erbyn Rhagfyr 2020.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Cabinet, yn seiliedig ar berfformiad cyfredol a rhagamcanol rhaglen waith mewnol ac allanol SATC (fel y'i cadarnhawyd yn adroddiad cynnydd SATC ar gamau terfynol y Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili ar 6ed Rhagfyr 2018, ac adroddiad dilynol SATC Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018) mae'n bosibl cyflawni cydymffurfiaeth lawn cyn y dyddiad cau o Ragfyr 2020.

Sefydlwyd rhaglen waith ar wahân ar gyfer cynlluniau tai gwarchod a chytunwyd y byddai gwaith mewnol ac allanol yn cael ei wneud gan y gweithlu mewnol. Mae'r gwaith hwn hefyd ar amser; fodd bynnag, bu'n ofynnol ail-broffilio nifer o'r cynlluniau o ganlyniad i ychwanegu gwaith allanol ychwanegol at gynlluniau, ynghyd ag arolygon ecolegol sydd wedi gohirio rhai contractau am nifer o fisoedd. Yn ogystal, nodwyd bod un cynllun tai gwarchod (Tŷ Isaf Rhisga) sy'n cynnwys deuddeg uned bellach wedi'i atal o'r rhaglen, yn dilyn arolwg diweddar, o ganlyniad i resymau iechyd a diogelwch. Nodir hyn yn fethiant derbyniol yn unol â dogfen ganllaw SATC a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, hyd nes y ceir astudiaeth ddichonoldeb, sy'n ofynnol er mwyn pennu dichonoldeb y cynllun yn y dyfodol.

Mae cyllideb Rhaglen Gyfalaf CRT wedi'i diwygio yn seiliedig ar y costau a arolygwyd a ragamcanwyd ymlaen at ddiwedd y rhaglen. Lle nad yw'r arolygon wedi'u cwblhau eto, defnyddiwyd y costau cyfartalog yn seiliedig ar gyfraddau o gyflwyniadau tendr diweddaraf. Mae'r data hwn wedi disodli amcangyfrifon blaenorol Savill ac wedi dangos bod y cynllun busnes tai a rhaglen SATC yn parhau'n hyfyw yn ariannol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a gofynnodd am ragor o wybodaeth am y materion a nodwyd yn y cynllun tai gwarchod yn Nhŷ Isaf, gydag ymholiadau penodol ynghylch safleoedd tebyg yn yr ardal. Cadarnhaodd swyddogion fod yr holl eiddo yn yr ardal wedi bod yn destun arolwg, fodd bynnag, dim ond Tŷ Isaf oedd yn cael ei gyflwyno fel

problem oherwydd lefelau'r asbestos a ganfuwyd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog ac a amlygwyd yn y cyfarfod, i wneud y canlynol:-

(i) nodi sylwadau Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili a'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau;

(ii) cymeradwyo'r rhaglen ddiwygiedig a'r cynnydd buddsoddiad o £250 miliwn ar gyfer SATC;

(iii) bod y gofyniad benthyca sy'n angenrheidiol i gwblhau'r rhaglen (£43 miliwn ar hyn o bryd) yn cael ei gytuno gyda'r amod bod y swm benthyca yn parhau'n fforddiadwy o fewn y cynllun busnes a'r CRT.

## 9. CYNLLUN YMDDEOLIAD HYBLYG

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn y cyfnod o ymddeoliad hyblyg o uchafswm o 6 mis (9 mis mewn amgylchiadau eithriadol) i 2 flynedd.

Nodwyd bod cynllun ymddeoliad hyblyg y Cyngor yn darparu i gyflogeion wneud ceisiadau am ymddeoliad hyblyg am gyfnod o hyd at 6 mis a 9 mis mewn achosion eithriadol. Roedd yr adroddiad yn cynnig ymestyn yr amserlen ar gyfer ymddeoliad hyblyg i gyfnod o ddim mwy na 2 flynedd.

Nododd y Cabinet fod ceisiadau am ymddeoliad hyblyg yn gorfod cael eu cefnogi gan achos busnes gan Bennaeth Gwasanaeth sy'n dangos bod y gwasanaeth yn gallu darparu ar gyfer y cais yn weithredol ac yn ariannol. Rhaid i'r achos busnes hwn gael ei awdurdodi hefyd gan y Cyfarwyddwr perthnasol, Pennaeth Cyllid Corfforaethol a'r Swyddog S151 a Phennaeth Gwasanaethau Pobl. Nid oes unrhyw hawl awtomatig i gytuno ar gais gan gyflogai am ymddeoliad hyblyg.

Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn nodi yr ymgynghorwyd â'r Undebau Llafur a'u bod yn gwbl gefnogol i'r newid arfaethedig hwn i'r cynllun.

Diolchodd y Cabinet i'r Aelod Cabinet a'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod am gadarnhad gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a oedd yn bresennol, a groesawyd yr argymhelliad o fewn eu gwasanaethau. Cadarnhaodd swyddogion y byddai cyflwyno gwasanaethau bob amser yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac er na fyddai'r cynllun hwn yn berthnasol i bob swydd, mae nifer o fanteision i'r cynnig hwn gan gynnwys cyfnod pontio estynedig a mantais gwasanaethau o gael cyfnodau hwy ar gyfer gynllunio ar gyfer olyniaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y swyddogion, fod yr estyniad i'r amserlen ar gyfer ymddeoliad hyblyg i gyfnod o ddim mwy na 2 flynedd, fel y manylir yn y cynllun wedi ei ddiweddaru ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo.

## 10. FFIOEDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL DIBRESWYL

Datganodd y Cynghorydd C. Gordon fuddiant personol mewn perthynas â'r eitem hon, gan fod aelod agos o'r teulu yn derbyn gwasanaethau ac o ganlyniad ni fu'n cymryd rhan yn y pleidleisio.

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 5ed Ebrill 2019 yn ceisio barn a chymeradwyaeth y Cabinet mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r model codi tâl dibreswyl presennol, er mwyn sicrhau tegwch i bob defnyddiwr gwasanaeth a hefyd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys codi tâl am yr elfen gefnogi gofal cartref, codi tâl am gyfleoedd dydd a ddarperir mewn lleoliad cymunedol a chodi tâl am gyfleoedd dydd a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol a'r trydydd sector.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod anghydraddoldebau wedi'u nodi yn y system. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw na chodir tâl ar unigolion am elfen gymorth y gofal cartref a dderbyniant. Mae gofal dydd sy'n seiliedig ar adeiladau yn ddarostyngedig i'r polisi codi tâl dibreswyl ond nid yw cyfleoedd dydd yn y gymuned lle mae unigolion yn defnyddio eu cymuned gyda 1:1 o gymorth yn destun y polisi codi tâl. Mae codi tâl am gyfleoedd dydd a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol a thrydydd sector hefyd wedi'i gynnwys.

Roedd y Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad mewn egwyddor, gan newid paragraff 10.1 a 10.3 i gynnwys cyfnod o ddwy flynedd ac nid pum mlynedd. Roedd aelodau o'r farn bod hwn yn amser da i sefydlu Grŵp Gorchwyl i ystyried y polisi a thaliadau yn y dyfodol a gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol a fydd yn sicrhau bod polisi cydlynol ar waith ar gyfer y blynyddoedd i ddod sydd hefyd yn addas i'r diben.

Diolchodd y Cabinet i'r swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Nododd yr Aelodau y tabl yn 4.11 o adroddiad y swyddogion, a oedd yn rhoi manylion am daliadau ar draws awdurdodau cyfagos, gan nodi mai Caerffili yw'r isaf o ran cymhariaeth. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y cynnydd mewn anawsterau ariannol i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed. Sicrhaodd y swyddogion y Cabinet y bydd y broses yn parhau ar sail prawf modd, ac felly bydd y rhai sy'n gallu fforddio talu am y gwasanaethau yn cael tâl wedi codi arnynt ar y gyfradd uwch arfaethedig.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

(i) dylid cytuno ar y taliadau am wasanaethau cymorth cartref drwy gymhwyso Polisi Codi Tâl Dibreswyl Caerffili, sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth fel y'i nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

(ii) dylid cytuno ar y cynnig i godi tâl am yr holl gyfleoedd dydd sy'n seiliedig ar adeiladau ar raddfa ddyddiol, ac am wasanaethau dydd yn y gymuned ar gyfradd yr awr drwy gymhwyso Polisi Codi Tâl Dibreswyl Caerffili, sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth fel y'i nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

(iii) bod codiad lefel y cynnydd chwyddiannol mewn taliadau am ofal dibreswyl am 2019/20 a blynyddoedd ariannol dilynol yn parhau i fod ar gyfradd fesul awr o

10% y flwyddyn a'r gyfradd ddyddiol o 20% y flwyddyn, am gyfnod o 2 flynedd a bod hyn yn destun adolygiad gan Grŵp Gorchwyl.

## 11. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Amlinellodd yr adroddiad y Flaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer adroddiadau Cabinet yn y dyfodol.

Nodwyd bod y Flaenraglen Waith yn cael ei diweddaru bob wythnos er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau a wnaed iddi ers y cytunwyd arni gyntaf ar 22ain Ionawr 2014.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at y Flaenraglen Waith sydd wedi'i hatodi i'r adroddiad a gofynnwyd iddynt nodi, ers cyhoeddi'r papurau, fod 2 adroddiad ychwanegol wedi'u hychwanegu at y Rhaglen ar gyfer 24 Ebrill 2019.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a amlinellwyd yn adroddiad y swyddogion, y byddai Blaenraglen Waith y Cabinet yn cael ei gymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:04pm.

Wedi'i gymeradwyo a'i llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain Mawrth 2019.

_________________________

CADEIRYDD